**Cofnodion o Cyfarfod Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun**
**2 Mawrth 2020 yn Festri Capel Penuwch am 8 o'r gloch.**
***Minutes of Llangeitho Community Council Meeting held on Monday,***
***2 March 2020, in Penuwch Festri Chapel, at 8pm***

Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod misol ac estynnwyd cydymdeimlad i Cyng Dafydd Morse a'i deulu yn eu profedigaeth ddiweddar.

**Presennol/*Present***
Cyng Gwenfair Owen (Gadair/*Chair*), Gwilym Evans, Emyr Jones, Daniel Thomas, Eirian Jones a Cyng/*Cllr* Paul Rooke

**Ymddiheuriadau/*Apologies*** – Cyng/*Cllr* Beryl Evans, Myrddin James, John Evans, Rhian Turner, Cyng/*Cllr* Rhodri Evans a PCSO John Evans.

**Datgan Diddordeb/*Declaration of Interest*** – Neb / *No one*

**Adroddiad yr Heddlu/*Police Report*** – Yn absenoldeb yr heddlu ni dderbyniwyd adroddiad.

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf/*Minutes of previous meeting***
Cynnig / *Proposed:* Cyng/*Cllr* Daniel Thomas
Eiliwyd / *Seconded:* Cyng/*Cllr* Emyr Jones

**Materion yn codi o'r cofnodion/*Matters arising from minutes***

- Yn absenoldeb Cyng Dafydd Morse ni dderbyniwyd cadarnhad a yw'r ysgol am brynu'r fflag neu'r Cyngor Cymuned i'w phrynu, Cyng Daniel Thomas i gysylltu â Cyng Dafydd Morse.
- Cyng Rhodri Evans wedi derbyn cadarnhad oddi wrth Mr Jon Hadlow, Cyngor Sir i beidio â rhoi potiau blodau ar y cylchfan yn Llangeitho dim ond plannu blodau isel.
- Cadarnhad wedi'u dderbyn oddi Mr Kieran Elliot ei fod yn hollol fodlon cadw at yr un pris am y gwaith i wneud ar y milwr. Clerc i gysylltu â'r cwmni gwella oddi amgylch y milwr/goeden ywen i ddechrau ar ôl y Pasg.
- Aelodau'r Cyngor Sir wedi bod allan yn asesu'r twll yn y ffordd/culvert wedi cwympo ar y gornel sy'n troi lan am Bronaeron o Parchrhydderch ond heb wneud y gwaith hyd yma.
- Cyng Rhodri Evans yn edrych mewn i'r broblem o'r twll wrth ymyl y ffordd rhwng Cnwc y Barcud a Cae Melyn, soniwyd hefyd bod yna lori wedi mynd mewn i'r clawdd ac wedi achosi'r pridd i gwympo i'r ffordd.
- Cadarnhad wedi'u dderbyn i gynnal dau sesiwn hyfforddi ar y peiriant Di-ffib yn Llangeitho a Phenuwch, Cyngor Cymuned yn cytuno'n unfrydol i dalu costau'r Neuadd am yr hyfforddiant. Posteri i'w gylchredeg.
- Dim wedi'u wneud am y twll wrth ymyl y ffordd lan ochr chwith o Alltgoch am Alltdderw Llangeitho.
- Arwydd ffordd sy'n dangos rhiw serth ar bwys Gaerlwyd, Llwynpiod, wedi troi a thorri angen sylw'r Cyngor Sir.
- Cynhelir Cyfarfod Eisteddfod Apêl Llangeitho yn ddiweddar a soniwyd bod targed Llangeitho eisoes wedi'u chyrraedd. Trefniadau ar y gweill ar hyn o bryd i dacluso'r pentref a'r ardaloedd cyfagos ar gyfer yr Eisteddfod. Cynhelir taith gerdded lwyddiannus yn dilyn y Nadolig lle casglwyd £170 tuag at y costau yma. Soniwyd bod y pwyllgor yn awyddus i blannu blodau oddi amgylch y tair cymuned, efallai o dan yr arwyddion mewn i'r pentrefi o bosibl. Angen peintio'r wal oddi amgylch y goeden ywen unwaith yn ragor. Soniwyd bod pwyllgor o rieni a ffrindiau'r pentref wedi trefnu pwyllgor gwau buntings ar gyfer yr achlysur. Soniwyd bod cyflwr cerflynau Gelli Angharad Penuwch angen sylw, Cyng Daniel Thomas i gysylltu â theulu Gelli Angharad i drafod ymhellach. Dyddiad cyfarfod nesaf y pwyllgor apêl yw 29 Ebrill 2020.

**Gohebiaeth/*Correspondence***

- Ni dderbyniwyd gohebiaeth i'w drafod.

**Cyfrifon/*Accounts***

- Un Llais Cymru (Aelodaeth) £127.00
- Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilwyr) £266.75

Cynnig / *Proposed:* Cyng/*Cllr* Emyr Jones
Eiliwyd / *Seconded:* Cyng/*Cllr* Gwilym Evans.

**Cyngor Sir Ceredigion *County Council***

**Ymgeisydd/*Applicant***: L Lewis
**Safle/*Location***: Bronhelem, Llwynygroes, Tregaron, SY25 6PY
**Y Bwriad/*Intention***: *Variation of condition 1 of planning permission A190490 plans & siting*

**Ymgeisydd/*Applicant***: R & C Parry
**Safe/*Location:*** Brynamlwg, Penuwch, Tregaron, SY25 6RA
**Y Bwriad/*Intention***: Proposed shepherds hut

Cynnig / *Proposed:* Cyng/*Cllr* Emyr Jones
Eiliwyd / *Seconded*: Cyng/*Cllr* Gwilym Evans

**Un Llais Cymru*/One Voice Wales***
Mynychodd y cadeirydd cyfarfod Ardal Un Llais Cymru ar 5ed o Chwefror 2020 lle trafodwyd y canllawiau ar gyfer cynnal gwefan y Cynghorau Cymuned a chytunwyd bod Cyngor Cymuned Llangeitho yn sicr o fewn y canllawiau angenrheidol.

**Unrhyw Fater Arall*/Any Other Business***

- Derbyniwyd cais gan Mr Michael Tordoff i weld a sganio copïau o gofnodion y Cyngor Cymuned â phwyllgorau'r Neuadd Jiwbili ers pan sefydlwyd y Cyngor â'r neuadd, trafodwyd y mater yn ddwfn a chytunwyd i wahodd Mr Tordoff i'r cyfarfod nesaf i esbonio pam mae angen sganio'r gwaith a'i bwrpas efo'r gwaith fydd wedi'u sganio.

**Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf*/Date & location of next meeting***
Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar 6ed o Ebrill 2020 – Neuadd Llangeitho.